Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Ardal Forol Warchodedig

## Briff Ymchwil

Medi 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Emily.Williams@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Ardal Forol Warchodedig
## Briff Ymchwil

Medi 2019

**Awduron:**
Emily Williams a Lorna Scurlock

# Cynnwys

**Beth yw Ardal Forol Warchodedig? .................................................... 1**

Dynodiad .......................................................................................................... 2

Deddfwriaeth gysylltiedig .......................................................................... 2

Graddau yng Nghymru ................................................................................ 2

**MPAs yng Nghymru ...................................................................... 2**

Beth yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer MPAs yng Nghymru? ................................................................................ 2

Pa safleoedd sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd yn MPAs yng Nghymru? ............................................................................ 4

A yw'r rhwydwaith MPA yng Nghymru yn gydlynol yn ecolegol? ........................................................................................ 5

Beth yw statws dynodiad Parth Cadwraeth Morol yng Nghymru? ................................................................................ 6

Pwy sy'n gyfrifol am reoli MPAs? ............................................................ 7

Beth yw cyflwr MPAs Cymru? ..................................................................... 9

Pa gamau a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol? ............................ 10

Beth yw'r goblygiadau yn sgil gadael yr UE ar MPAs yng Nghymru? ................................................................................ 11

**Ardal Forol Warchodedig:** Briff Ymchwil

# Beth yw Ardal Forol Warchodedig?

Ardal Forol Warchodedig (MPA) yw'r term cyfunol ar gyfer pob ffurf ar safleoedd cadwraeth natur gwarchodedig yn yr amgylchedd morol. Maent wedi'u diffinio a'u cydnabod yn ffurfiol yn ddaearyddol drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, gan gynnwys dulliau gwirfoddol. Gellir dynodi MPAs am nifer o resymau, gan gynnwys cadwraeth forol a rheoli pysgodfeydd.  Mae mwyafrif yr MPAs yn y DU yn aml-ddefnydd, gyda'r gwaith o reoli gweithgareddau yn cael ei bennu yn unol â nodweddion ac amcanion y safle.

**Ardal Forol Warchodedig:** Briff Ymchwil

# MPAs yng Nghymru

## Beth yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer MPAs yng Nghymru?

Yn nyfroedd Cymru, dynodwyd MPAs o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, yn ogystal â deddfwriaeth ddomestig. Mae Tabl 1 yn amlinellu'r math o MPAs sydd wedi'u dynodi yng Nghymru.

Tabl 1: Dynodiadau Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

| Dynodiad | Deddfwriaeth gysylltiedig | Graddau yng Nghymru |
|---|---|---|
| Parthau Cadwraeth Morol (MCZs) | Rhan 5 o ***Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** | Cafodd y dyfroedd o amgylch Ynys **Skomer**, Sir Benfro, eu dynodi fel yr MCZ cyntaf ym mis Rhagfyr 2014. Hwn yw'r unig MCZ yn nyfroedd tiriogaethol Cymru hyd yn hyn. |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) | ***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*** | Mae **107 o SSSIs** yng Nghymru gydag elfennau morol. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (SACs) | Y ***Gyfarwyddeb ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt*** (Cyfarwyddeb Cynefinoedd).<br><br>***Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017***<br><br>***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017***<br><br>***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019*** | Mae **15 o SACs o fewn dyfroedd morol Cymru,** gan gynnwys dau safle trawsffiniol â Lloegr (SAC Aber Afon Hafren a SAC Aber Afon Dyfrdwy). |
| Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) | Y **Gyfarwyddeb ar gadwraeth adar gwyllt** (y Gyfarwyddeb Adar).<br><br>***Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017***<br><br>***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017***<br><br>***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019*** | Mae **13 o SPAs o fewn dyfroedd Cymru sydd naill ai'n aberol neu'n forol.** Maent yn cynnwys tri safle trawsffiniol â Lloegr (Aber Afon Hafren, Aber Afon Dyfrdwy a Bae Lerpwl). |
| Safleoedd Ramsar | Dynodwyd o dan **Gonfensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol,** y cytunwyd arno yn Ramsar, Iran, ym 1971. | **Mae yna dri safle Ramsar yng Nghymru sydd ag elfen forol.** |

Cyfeirir at reoliadau, deddfwriaeth a pholisïau ychwanegol sy'n berthnasol i'r gwaith o reoli a dynodi MPA yng Nghymru yn **fframwaith rheoli rhwydwaith Grŵp Llywio Rheoli MPA ar gyfer Cymru 2018-2023** ac mae'n cynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;**
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;**
- **Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP)** i Gymru;
- **Strategaeth Forol y DU;**
- y **Confensiwn er Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd (Confensiwn OSPAR).**

Mae **Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru** hefyd yn cynnwys polisi ar MPAs.

## Pa safleoedd sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd yn MPAs yng Nghymru?


Mae amgylchedd morol Cymru yn cwmpasu dros hanner arwynebedd Cymru ac mae'n gartref i rai o'r cynefinoedd a rhywogaethau mwyaf bioamrywiol yn Ewrop. Yn ôl **Llywodraeth Cymru,** mae cyfanswm o 139 o MPAs yng Nghymru yn cwmpasu 69% o ddyfroedd mewndirol Cymru (y marc penllanw i'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol) a 50% o holl ddyfroedd Cymru.

Mae pob MPA yng Nghymru yn safleoedd aml-ddefnydd. Fodd bynnag, gellir rheoli neu gyfyngu ar rai gweithgareddau i leihau'r tebygolrwydd o gael effaith andwyol ar y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd y mae'r safle wedi'u dynodi ar eu cyfer.





**Ffigur 1: Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru**




[Ffynhonnell: **Adroddiad Llywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru**, 2019]

## A yw'r rhwydwaith MPA yng Nghymru yn gydlynol yn ecolegol?

Mae Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU wedi ymrwymo i **gyfrannu at rwydwaith sy'n gydlynol yn ecolegol** (PDF 1.5MB) o MPAs. Yn y DU, defnyddiwyd canllawiau gan y **Comisiwn OSPAR** i gynorthwyo i ddehongli'r cysyniad o rwydwaith MPA sy'n gydlynol yn ecolegol. Mae Llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn **cyfeirio at bum prif egwyddor OSPAR** sy'n eu tywys:

- **Nodweddion:** Dylai safleoedd gynrychioli'r ystod o rywogaethau, cynefinoedd a phrosesau ecolegol yn yr ardal. Dylid penderfynu ar gyfran y nodweddion a gynhwysir yn rhwydwaith MPA ar sail nodwedd unigol, gan ystyried a yw nodweddion sy'n dirywio, sydd mewn perygl neu'n arbennig o sensitif yn flaenoriaeth uwch ac a fyddai'n elwa o gael cyfran uwch yn cael ei warchod gan MPAs .
- **Cynrychiolaeth:** Er mwyn cefnogi defnydd cynaliadwy, amddiffyn a chadwraeth amrywiaeth fiolegol forol ac ecosystemau, dylai ardaloedd gynrychioli'r ystod o rywogaethau, cynefinoedd a phrosesau ecolegol orau.
- **Cysylltedd:** Gellir brasamcanu hyn drwy sicrhau bod y rhwydwaith MPA wedi'i ddosbarthu'n dda mewn gofod ac yn ystyried y cysylltiadau rhwng ecosystemau morol.
- **Gwydnwch:** Mae dyblygu cynefinoedd, rhywogaethau a phrosesau ecolegol yn ddigonol mewn MPAs ar wahân ym mhob ardal bioddaearyddol yn ddymunol lle bo hynny'n bosibl. Dylai maint y safle fod yn ddigonol i gynnal cyfanrwydd y nodwedd y mae'n cael ei dewis ar ei chyfer.
- **Rheolaeth:** Dylid rheoli MPAs i sicrhau bod y nodweddion y cawsant eu dewis ar eu cyfer yn cael eu gwarchod ac i gefnogi swyddogaeth rhwydwaith sy'n gydlynol yn ecolegol

Yn 2016, yn unol â chais Llywodraeth Cymru, cynhaliodd y **Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur** (JNCC) a Cyfoeth Naturiol Cymru **ddadansoddiad o'r cynnydd tuag at ddatblygu rhwydwaith sy'n gydlynol yn ecolegol o MPAs** mewn dyfroedd o amgylch Cymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod MPAs yn nyfroedd tiriogaethol Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y nod o rwydwaith sy'n gydlynol yn ecolegol. Fodd bynnag, amlygodd hefyd nifer fach o ddiffygion wrth amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau o ddiddordeb cadwraeth y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw.

## Beth yw statws dynodiad Parth Cadwraeth Morol yng Nghymru?

Ar hyn o bryd mae un Parth Cadwraeth Morol (MCZ) yng Nghymru; sef y dyfroedd o amgylch Ynys Skomer yn Sir Benfro. **Cafodd Skomer ei newid yn MCZ** o Warchodfa Natur Forol.

Cyflwynodd ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** bwerau newydd i Weinidogion Cymru ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn ardal glannau Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i ddynodi MCZs i ffurfio rhan o rwydwaith MPA ehangach y DU **(Adran 123)**.



**Ardal Forol Warchodedig:** Briff Ymchwil

Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar opsiynau ar gyfer MCZs gwarchodedig iawn. **Dywedodd** y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd, Alun Davies AC:

> Cafwyd ymateb da iawn i'r ymgynghoriad, a mynegwyd safbwyntiau amrywiol a chryf.

Mewn ymateb, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gyda chefnogaeth Grŵp Ffocws Rhanddeiliaid, i ystyried a chynghori Llywodraeth Cymru ar fwrw ymlaen â MCZs yng Nghymru. Cyhoeddodd y tîm ei **adroddiad ac argymhellion** (PDF 184 KB) yn 2013.

Cafodd y **dadansoddiad o'r cynnydd tuag at ddatblygu rhwydwaith sy'n gydlynol yn ecolegol o MPAs** yng Nghymru ei gyhoeddi yn 2016. Yn fuan wedi hynny, gwnaeth ***Deddf Cymru 2017*** ymestyn pwerau i ddynodi MCZs yn rhanbarth môr mawr Cymru (ardal o ddŵr Cymru sydd y tu hwnt i'r terfyn môr tiriogaethol o 12 milltir forol).

Mewn **llythyr at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad (PDF 2.3MB),** dyddiedig 17 Ebrill 2019, cadarnhaodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, y byddai dynodiad MCZ yn cael ei ystyried er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith MPA. Dywedodd:

> Mae'r gwaith sydd ar droed i nodi Parthau Cadwraeth Morol yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar gyflawni canlyniadau asesiad rhwydwaith 2016, a oedd yn ystyried rôl cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn gallu symud llawer yn y rhwydwaith. Cam nesaf gwaith Parthau Cadwraeth Morol fydd ystyried a oes angen rhagor o warchodaeth ofodol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn, fel adar môr a theulu'r morfil.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd, sy'n cynnwys rhanddeiliaid, wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i nodi MCZs posibl. Cafodd cofnodion y cyfarfod cyntaf eu **cyhoeddi** ym mis Gorffennaf 2019.

## Pwy sy'n gyfrifol am reoli MPAs?

Mae'r **cyfrifoldeb** dros nodi, dynodi a rheoli MPAs Cymru yn gymhleth. Mae **fframwaith rheoli MPA i Gymru ar gyfer 2018-2023 (PDF 1.2MB)** yn nodi:

> Er bod Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru'n cael ei reoli'n effeithiol, mae nifer o sefydliadau'n rhannu'r cyfrifoldeb dros eu rheoli. Yn y Fframwaith hwn, cyfeirir atynt fel awdurdodau rheoli. Sefydliadau sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag ardal forol warchodedig o unrhyw fath, neu sy'n berchen ar ddarnau mawr o'r arfordir neu wely'r môr, yw awdurdodau rheoli. Maent yn cynnwys yr awdurdodau perthnasol a chymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) a'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 a'r awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

Yng Nghymru, mae rhai awdurdodau rheoli wedi sefydlu Grwpiau Awdurdod Perthnasol (RAGs). Trefniant gweithio gwirfoddol a sefydlwyd gan rai awdurdodau rheoli yw hwn er mwyn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau i reoli MPA. Mae swyddogion penodol (Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd) yn gweithio'n agos gyda RAGs wrth reoli rhai o MPAs (SACs) mwyaf Cymru.

Oherwydd cylch gwaith a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru fel cynghorydd statudol cadwraeth natur i Lywodraeth Cymru, mae ganddo **rôl sylweddol** o ran rheoli MPAs. Mae'n gyfrifol am dystiolaeth a chyngor ar gyflwr MPAs, asesu a chynghori ar reoli effeithiol, a chyflawni amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a rheoleiddio. Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheolwr safle rhai MPAs hefyd, gan gynnwys **Parth Cadwraeth Forol Skomer.**

## Grŵp Llywio ar Reoli MPA

Sefydlwyd y **Grŵp Llywio ar Reoli MPA** (MPAMSG) ym mis Mehefin 2014 at ddibenion llywio a hyrwyddo rheolaeth effeithiol o MPA, a chynyddu cyfranogiad gan awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o rai o awdurdodau rheoli'r MPA ledled Cymru, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r MPAMSG **yn cyhoeddi cofnodion o'i gyfarfodydd ar-lein ac mae wedi cytuno ar weledigaeth** ar gyfer **rhwydwaith MPA a reolir yn dda yng Nghymru**.

## Rheoli rhwydwaith MPA

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd yr MPAMSG **Fframwaith Rheoli Rhwydwaith MPA ar gyfer Cymru 2018-2023**. Mae'n nodi gwybodaeth am MPAs, sut cânt eu rheoli a chan bwy, ac yn cynllunio ar gyfer gwella. **Noda Llywodraeth Cymru (PDF 2.3MB):**



**Ardal Forol Warchodedig:** Briff Ymchwil

> Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol yn sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig at gyflwr a chydnerthedd ecosystemau morol a diwydiannau morol cynaliadwy. Mae'n rhoi ffocws i bob Awdurdod Rheoli hefyd i gynnal a gwella trefniadau rheoli'r rhwydwaith.

Mae Cynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith MPA blynyddol yn eistedd ochr yn ochr â'r Fframwaith ac yn manylu ar y camau a nodwyd gan yr MPAMSG fel blaenoriaethau i wella rheolaeth ymhellach, ac felly cyflwr, y rhwydwaith o MPAs yng Nghymru. Cafodd y **cynllun gweithredu mwyaf diweddar** ei gyhoeddi ar 1 Awst 2019 ar gyfer y cyfnod 2019-2020. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd **adroddiad blynyddol** a oedd yn rhoi manylion am gynnydd a'r ffordd y cyflawnir camau a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu blaenorol. Mae'r adroddiad yn nodi fel a ganlyn:

> Mae'r camau gweithredu'n amrywio o ran natur, o weithgareddau ar raddfa rhwydwaith i ymyriadau penodol a phrosiectau peilot lleol. Mae llawer yn barhaus, er enghraifft, y camau gweithredu hynny sy'n seiliedig ar broses asesu neu reoleiddio. Mae eraill yn dasgau neu brosiectau ar wahân gyda dyddiadau dechrau a gorffen diffiniedig, yn aml yn para mwy na deuddeng mis. Mae gwaith parhaus a'r prosiectau a'r tasgau hynny sy'n para mwy na blwyddyn wedi cael eu dwyn ymlaen i Gynllun Gweithredu 2019-20, ochr yn ochr â chamau sydd newydd eu blaenoriaethu.

## Beth yw cyflwr MPAs Cymru?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio **asesiadau cyflwr nodwedd dangosol** ar gyfer nodweddion yn Safleoedd Morol Ewropeaidd yng Nghymru, sy'n cynnwys yr holl SACs a SPAs morol. Roedd yr asesiadau hyn yn ystyried statws cadwraeth y nodweddion (rhywogaethau a chynefinoedd) ar lefel y safle. Canfu fod 45% o'r holl nodweddion dynodedig mewn cyflwr ffafriol, tra bod 45% mewn cyflwr anffafriol, gyda gwahanol raddau o hyder yn yr asesiad, fel y crynhoir yn Nhabl 2 isod. Nodir bod cyflwr y nodweddion sy'n weddill yn anhysbys.

**Tabl 2: Crynodeb o asesiadau cyflwr dangosol** [Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, **tystiolaeth a gyflwynwyd i waith dilynol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Ymchwiliad Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru,** Mawrth-Ebrill 2019]

| Cyflwr | Hyder | Rhif | Canran (wedi'i thalfyrru) |
|---|---|---|---|
| **Ffafriol** | Uchel | 39 | 30% |
| **Ffafriol** | Canolig | 13 | 10% |
| **Ffafriol** | Isel | 7 | 5% |
| **Anffafriol** | Uchel | 32 | 25% |
| **Anffafriol** | Canolig | 15 | 12% |
| **Anffafriol** | Isel | 10 | 8% |
| **Anhysbys** | Amherthnasol | 12 | 9% |
| **Cyfanswm** | | **128** | |

Mae nifer o faterion allweddol a amlygwyd yn yr adroddiadau asesu yn cynnwys ansawdd dŵr, llygredd, gweithgareddau heb eu rheoleiddio a rhywogaethau estron goresgynnol.

**Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud ei fod yn bwriadu cynnal cyfres o brosiectau** i weithio tuag at y nod o ddatblygu proses barhaol a chynaliadwy ar gyfer adrodd ar gyflwr nodweddion safleoedd y gellir ei wneud yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud:

> Mae'n annhebygol y bydd adnoddau a ffynonellau tystiolaeth addas ar gael ar unrhyw amser penodol i fonitro ac adrodd ar yr holl nodweddion, neu i adrodd gyda'r un lefel o hyder. Fodd bynnag, ein nod yw datblygu, dros y blynyddoedd sydd i ddod, broses asesu ac adrodd a fydd o ddefnydd ymarferol o ran llywio gwaith rheoli safleoedd yn effeithiol ac o ran cynnal neu wella cyflwr nodweddion a safleoedd.

## Pa gamau a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol?

Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ei adroddiad, **Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig**. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ar gyfer rheoli MPA a oedd yn cynnwys:





- sefydlu partneriaeth gwyddor môr;
- codi ymwybyddiaeth o rôl MPAs; a
- chreu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau.

Ym mis Mehefin 2019, cynhaliodd y Pwyllgor **waith dilynol ar reoli MPA yng Nghymru**, gan asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, ac wrth gyflwyno Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2018-19. Disgwylir adroddiad o'r ymchwiliad yn nhymor yr hydref.

## Beth yw'r goblygiadau yn sgil gadael yr UE ar MPAs yng Nghymru?

### Newid deddfwriaeth

Mae mwyafrif helaeth yr ardal warchodedig sydd o fewn rhwydwaith MPA Cymru wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE. Maent wedi'u trosglwyddo i gyfraith y DU drwy reoliadau, gan gynnwys ***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017***. Mae Offerynnau Statudol wedi'u cyflwyno o dan ***Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*** i ddiwygio deddfwriaeth fel hon i sicrhau y bydd yn parhau i fod yn weithredol yn y Deyrnas Unedig (y DU) ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys ***Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.*** Mae'r **memorandwm esboniadol** ar gyfer y rheoliadau hyn yn nodi:

> The intention is to ensure habitat and species protection and standards as set out under the Nature Directives are implemented in the same way or an equivalent way when the UK exits the EU. There is no change to policy.

Mewn **llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 17 Ebrill 2019** (PDF 2.3MB), dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Fel Llywodraeth rydym wedi cyflwyno neges glir a chyson na fyddai'n safonau amgylcheddol yn gostwng ar ôl gadael yr UE.
>
> Mae Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE o gymorth mawr i ni gyflawni'n rhwymedigaethau bioamrywiaeth rhyngwladol a darparu mesurau diogelwch ar gyfer ein cynefinoedd pwysicaf, ein rhywogaethau prinnaf ac adar mudol. Byddwn yn cadw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a byddant yn parhau i gael eu nodi, eu dynodi a'u rheoli yn unol â meini prawf a gofynion y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd.

## Brexit a'n moroedd

Ar 1 Mai 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hymgynghoriad Polisïau morol a physgodfeydd ar gyfer Cymru ar ôl Brexit.**

Dywed yr ymgynghoriad:

> Ni fyddwn yn cefnu ar ein hymrwymiadau nac yn glastwreiddio safonau sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol o ganlyniad i Brexit... Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gwblhau ei chyfraniad i'r rhwydwaith ehangach ac i barhau i sicrhau bod ei chyfraniad yn cael ei rheoli'n dda. Byddwn yn defnyddio'r cyfuniad o bwerau sydd ar gael drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r amryfal Reoliadau sy'n rhoi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar waith er mwyn parhau i wireddu'r ymrwymiad hwn.

Er bod pynciau fel ecosystemau cydnerth wedi'u cynnwys ymhlith cwestiynau'r ymgynghoriad, nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol ar MPAs.

## Rhwydweithiau safleoedd gwarchodedig ar ôl Brexit

Mae **memorandwm esboniadol Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** yn ei gwneud yn glir, ar ôl ymadael â'r UE, na fydd SACs a SPAs y DU yn cyfrannu mwyach at rwydwaith safleoedd gwarchodedig **EU Natura 2000**. Mae'n nodi o dan y rheoliadau:

> A national site network is created to retain the concept of a UK network of sites. The 'national site network' is defined as including Natura 2000 sites designated prior to EU exit and those Special Areas of Conservation (SACs) and Special Protection Areas (SPAs) designated post EU Exit.

Cafodd rhagor o wybodaeth am rwydweithiau MPA ar ôl gadael yr UE, ei darparu gan Lywodraeth Cymru mewn **llythyr a anfonwyd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 17 Ebrill 2019** (PDF 2.3MB). Amlygodd y bydd rhwydwaith Cymru o MPAs yn parhau i fod yn rhan o gyfraniad y DU at **Rwydwaith Emerald Confensiwn Bern a rhwydwaith OSPAR** o MPAs.





## Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wrthi'n cynnal ymchwiliad i **egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit.** Mae hyn yn berthnasol i'r gwaith o ddynodi a rheoli MPA. Er enghraifft, mae newidiadau mewn trefniadau llywodraethu yn berthnasol i MPAs oherwydd bod mwyafrif yr MPAs yng Nghymru wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddebau Natur yr Undeb Ewropeaidd. Mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi edrych ar hyn** (PDF 2.3MB) yn ystod yr **ymchwiliad i reoli MPA**. Yn adroddiad y Pwyllgor, **Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig** (PDF 1MB), mynegodd y Pwyllgor ei farn:

> Roeddem yn siomedig o glywed bod ofn y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn dwyn achos am dorri rheolau yn ysgogiad sylweddol i'r sawl sy'n rheoli MPAs Cymru. Yn y pen draw, Llywodraeth Cymru ddylai berchnogi ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau llwybr at gyfiawnder amgylcheddol, herio ac adolygu ac fel y rhanddeiliaid, mae'n poeni am y posibilrwydd o gau'r drws ar Lys Cyfiawnder Ewrop yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld ymlyniad parhaus at y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfle i'r Cyhoedd gyfrannu at Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder ym maes Materion Amgylcheddol, a elwir yn Gonfensiwn Aarhus

O ran adrodd, mewn **llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** a anfonwyd ar 17 Ebrill 2019 (PDF 2.3MB), eglurodd Llywodraeth Cymru:

> Ar ôl gadael yr UE, bydd Llywodraeth Cymru'n adrodd ar weithredu mesurau i gyflawni amcanion Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn unol â'r gofynion cyfredol. Nod y gofynion adrodd yw sicrhau eu bod o leiaf yn adlewyrchu'r rhai sydd yn Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb Adar...
>
> Trwy ofynion adrodd yr UE yn y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar mae'r DU yn cyflawni rhwymedigaethau adrodd fel parti sy'n rhan o Gonfensiwn Bern ar hyn o bryd. Ar ôl gadael yr UE byddwn yn adrodd bob chwe blynedd ar statws cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd a restrir o dan Gonfensiwn Bern. I raddau helaeth, yr un rhywogaethau a chynefinoedd yw'r rhain ag a restrir yn y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar.
>
> Byddwn yn parhau hefyd i fod â gofynion adrodd fel partïon contract Comisiwn OSPAR Commission, ac **ASCOBANS,.**

## Cyllid Ewropeaidd ar gyfer rheoli MPA

Dros y deg mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi **adrodd** bod cronfeydd cyllid Ewropeaidd, fel **Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)** a chronfa'r **rhaglen LIFE**, wedi darparu dros £5 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth forol a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mewn **llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** (PDF 2.3MB), dyddiedig 17 Ebrill 2019, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Rwy'n disgwyl i Lywodraeth y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i warantu holl raglenni ariannu'r UE yn llawn ar ôl i ni adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys talu costau gweinyddu'r rhaglenni a defnyddio cyfradd gyfnewid briodol. O ran yr holl drefniadau ariannu ar ôl i ni adael yr UE, rwy'n glir na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai o ganlyniad i adael yr UE.
>
> Mewn sefyllfa gadael heb gytundeb mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu y bydd prosiectau LIFE sy'n cael eu hariannu gan arian yr UE ar hyn o bryd yn parhau i gael eu hariannu gan Drysorlys EM am oes y prosiectau. O ddod i gytundeb, byddant yn parhau i gael eu hariannu gan yr UE am oes y prosiectau. Mae Trysorlys EM yn ystyried opsiynau i ddisodli arian LIFE yn y tymor hir ar ôl i ni adael yr UE. Mae fy swyddogion yn pwyso ar Drysorlys EM i ddarparu'r arian hwn i Lywodraeth Cymru.
>
> Mae fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan lawn yn nhrafodaethau Uwch Grŵp Llywio Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop y DU. Yn ddiweddar, bu'r Grŵp yn trafod natur fregus gadael heb gytundeb, a chynigion ar gyfer gweinyddu'r arian ychwanegol ar gyfer y diwydiant pysgota a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fis Rhagfyr diwethaf.





### Astudiaeth Achos – Parth Cadwraeth Morol Skomer

Skomer yw unig Barth Cadwraeth Morol (MCZ) yng Nghymru. Mae yna **gynllun rheoli** ar gyfer y safle gyda map parth cysylltiedig, sy'n nodi'r ardaloedd hynny lle mae gweithgareddau wedi'u cyfyngu neu eu gwahardd gan **is-ddeddfau a chodau ymddygiad (547KB)**. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n monitro ac yn rheoli'r MCZ.

Mae'r is-ddeddfau yn cyfyngu ar weithgareddau fel dympio sbwriel a chymryd, lladd neu darfu ar fywyd gwyllt. Mae terfyn cyflymder 5 not o fewn 100m i lan yr ynys er mwyn lleihau tarfu ar fywyd gwyllt. Mae'r safle hefyd yn destun is-ddeddfau pysgodfeydd penodol, sy'n gwahardd defnyddio offer pysgota symudol (llusgrwydi a threillrwydi trawst) a chael gwared ar y rhywogaeth Cregyn y Brenin mewn unrhyw fodd, sydd wedi'i wahardd ers mis Gorffennaf 1990, ar ôl cael ei ddynodi yn Warchodfa Natur Forol ar y pryd.

O ganlyniad i'r gwaharddiad hwn, mae gwaith **monitro rheolaidd** wedi dangos bod dwysedd cyfartalog Cregyn y Brenin wedi cynyddu o oddeutu 1-1.2/100m2 cyn y dynodiad (1984) i 35/100m2 yn 2016. Bu cynnydd da i'r boblogaeth, yn enwedig ers 2012, a chynnydd dwysedd 7 gwaith yng nghyfnod yr arolwg 16 mlynedd, gydag awgrym bod y cynnydd hwn bellach yn arafu.